FFURFLEN YMRWYMIADAU GWERTH CYMDEITHASOL

Gofynnir i chi roi manylion isod am y gwerth cymdeithasol y bydd eich sefydliad yn ei greu wrth i chi gyflawni gofynion y contract.

Rhoddir rhai enghreifftiau o ganlyniadau gwerth cymdeithasol posib i'ch annog i feddwl. Mae'r canlyniadau yma ar sail y saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol o fewn Fframwaith TOMs Cymru.

Anogir chi i chwilio am wybodaeth yn ymwneud â'r nodau yma i'ch cynorthwyo ymhellach i roi enghreifftiau o bethau yr ydych yn eu gwneud yn barod fel sefydliad, neu bethau newydd y gallech o bosib eu cynnig yn y dyfodol fel rhan o'r contract. Meddyliwch am unrhyw fentrau gwerth cymdeithasol yr ydych yn cymryd rhan ynddyn nhw yn barod, a sut y bydd y rhain yn cael eu symud ymlaen gan y contract yma.

NID yw'n hanfodol cwblhau pob adran isod fodd bynnag, bydd angen i'r cynigydd llwyddiannus lenwi'r bocsys sy'n berthnasol a chymesur i'r contract dan sylw.

Gallwn roi cymorth os ydych angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol.

Bydd yr ymrwymiadau isod yn ffurfio rhan o'r contract, felly, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth eich bod wedi cyflawni'r ymrwymiadau pan a phryd y mae angen:

EIN NODAU LLESIANT	ENGHREIFFTIAU O GANLYNIADAU GWERTH CYMDEITHASOL DISGWYLIEDIG	EICH YMATEB
1. Cymru Lewyrchus	• Mwy o bobl mewn cyflogaeth e.e. camau i'w cymryd i gadw gweithwyr lleol • Gwaith teg e.e. amodau gwaith da a boddhad gweithwyr • Sgiliau pobl wedi gwella e.e. prentisiaethau neu ymweliadau ysgol/coleg • Cyfleoedd wedi'u creu ar gyfer busnesau lleol a Mentrau Micro, Bach a Chanolig e.e. darparu cyngor busnes arbenigol neu wario o fewn y gadwyn gyflenwi	

2. Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.'	• Lleihau allyriadau carbon e.e. strategaeth datgarboneiddio ar waith neu weithgareddau gwrthbwyso carbon • Mae caffael moesegol yn cael ei hybu e.e. dim goddef caethwasiaeth fodern, llafur plant ayb	
3. Cymru Gydnerth	• Mannau gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwarchod a gwella e.e. gwirfoddoli gyda mentrau amgylcheddol lleol • Diogelu'r amgylchedd e.e. rhoddion at blannu coed ar gyfer gwrthbwyso carbon • Caffael cynaliadwy yn cael ei hybu e.e. defnyddio deunyddiau neu gynnyrch lleol, ymdrech i leihau gwastraff bwyd a chyffredinol	
4. Cymru Iachach	• Creu cymunedau iachach e.e. cefnogi ymyriadau iechyd fel rhoi'r gorau i ysmygu, cyffuriau, alcoholiaeth neu fentrau llesiant gan gynnwys gweithgareddau corfforol ar gyfer oedolion a phlant • Llygredd aer yn cael ei leihau e.e. hybu rhannu cerbyd, defnyddio cerbydau trydan/hybrid neu ddefnyddio cerbydau adeiladu sy'n Euro 6 neu LEV o leiaf. • Gwella llesiant staff e.e. ymgyrchoedd iechyd meddwl i ddileu stigma yn ymwneud ag iechyd meddwl	

5. Cymru fwy cyfartal	• Cynnig mwy o gyfleoedd i bobl o dan anfantais e.e. pobl sy'n ddi-waith tymor hir, o gefndiroedd lleiafrifol a throseddwyr ifanc • Cynnig cefnogaeth e.e. mentora gyrfa, cyngor CV, cyfweliadau ffug a chynnig profiad gwaith (gyda thâl a heb dâl) • Lleihau anghydraddoldebau e.e. lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau neu sicrhau bod staff yn cael Cyflog Byw Gwirioneddol	
6. Cymru o gymunedau cydlynol	• Cyfleoedd i gefnogi'r trydydd sector e.e. elusennau, sefydliadau gwirfoddol a chymuned • Trosedd lleol yn cael ei leihau e.e. cefnogaeth i glybiau ieuenctid lleol, goleuadau ar gyfer mannau cyhoeddus neu TCC • Cefnogaeth i bobl ifanc o dan anfantais a'u teuluoedd e.e. gwirfoddoli gydag elusennau lleol • Mwy o weithio â'r gymuned e.e. cyfraniadau/gwirfoddoli gyda phrosiectau cymunedol lleol	
7. Cymru o ddiwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu	• Y diwylliant Cymraeg yn cael ei hybu e.e. gweithwyr yn gallu siarad Cymraeg a chefnogaeth yn cael ei roi i weithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg • Safleoedd bywyd gwyllt brodorol a threftadaeth yn cael eu gwarchod e.e. rhoddion i safleoedd lleol neu wirfoddoli	

2. Datganiad Ychwanegu Gwerth

Os ydych o'r farn bod gan eich sefydliad mwy o ganlyniadau i'w cynnig yn ychwanegol at yr uchod, rhowch fanylion isod:

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch gyda Thîm Caffael Adra (Tai) Cyf: caffael@adra.co.uk